**COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANFAIR A GYNHALIWYD YN Y NEUADD GOFFA, LLANFAIR AM 7.30 O'R GLOCH 05.06.19**

**YMDDIHEURIADAU**
Cyng. Eurig Hughes (Cadeirydd), David J. Roberts.

**PRESENNOL**
Cyng. Russell Sharp (Is Gadeirydd), Gerallt Jones, Robert G. Owen, Dylan Hughes, Mair Thomas, Caerwyn Roberts a'r Cyng. Annwen Hughes (Cyngor Gwynedd).

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y Gadair gan yr Is-Gadeirydd.

**COFNODION**
Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ebrill 17eg 2019 fel rhai cywir.

**MATERION YN CODI**
**Ethol Swyddogion am y flwyddyn 2019/20:-**
Cadeirydd:- Cyng. Eurig Hughes
Is-Gadeirydd:- Cyng. Russell Sharp

**Cynllun Cyllideb**
Adroddwyd bod £654.00 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd a bod hyn yn £9,757.95 o wariant yn llai na oedd wedi cael ei glustnodi yn y gyllideb am y flwyddyn. 'Roedd hyn oherwydd bod y costau o £4,011.95 oedd wedi ei glustnodi fel hanner y cynllun precept i Hamdden Harlech ac Ardudwy heb gael ei dalu, oedd y gost o £4,000 fel cyfraniad i gadw y toiledau cyhoeddus yn agored heb gael ei wario.

**Prisiau Torri Gwair y Llwybrau Cyhoeddus ar Fynwent Gyhoeddus**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi rhoi hysbyseb yn Llais Ardudwy yn gofyn am dendrau i dorri gwair y llwybrau cyhoeddus eleni ond yn anffodus nid oedd neb wedi ymateb i'r hysbyseb. Cytunwyd gofyn i Mr. Eifion Roberts a fyddai diddordeb ganddo ef yn y gwaith.

**Llinellau Melyn ger stesion Llandanwg**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn dau wrthwynebiad i osod y llinellau uchod ag hefyd ei bod wedi derbyn rhai o blaid i'r llinellau hyn gael eu gosod ar sail diogelwch. Bu trafodaeth ynglyn ar sylwadau oedd wedi eu derbyn, ag er bod yr Aelodau yn gweld safbwynt y ddwy ochor, cytunwyd gofyn i Mr. Dylan Jones o Gyngor Gwynedd ddod lawr i'w cyfarfod er mwyn iddo weld y safle a gweld beth yw yr angen am eu cael ag hefyd gofyn a fyddai yn bosib yn lle bod y gorchymyn o'r llinellau hyn yn weithredol o'r 1af Ebrill tan y 30ain o Fedi, ei fod yn cychwyn yn mis Mai. Ar ol cyfarfod y Cyngor ymwelodd rhai Aelodau ar safle a cytunwyd bod angen y llinellau melyn hyn ar sail diogelwch.

**Cyfarfod Bwrdd Hamdden Harlech ac Ardudwy**
Adroddodd y Cyng. Mair Thomas bydd y cyfarfod nesa yn cael ei gynnal ar yr 20ed o Fehefin. Cytunwyd talu hanner y cynnig precept o £4,011.95.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**
**Codi estyniad unllawr ar yr ochr - Penrallt, Llanfair (NP5/66/79A)**
Cefnogi y cais hwn.

**Gosod 2 dormer ar yr edrychiad De Orllewinol ac 1 ar yr edrychiad Gogledd Dwyreiniol ynghyd a codi cyntedd - Y Berth, Llanfair (NP5/66/265)**
Cefnogi y cais hwn.

**Gosod ffenestri to ar y drychiadau blaen a cefn - Lorelei, Frondeg, Llanfair (NP5/66/264)**
Cefnogi y cais hwn.

........................................Cadeirydd

**Amnewid y to presennol i gynnwys deunydd "GRP" ac gosod ffenestri to newydd – Windy Ridge, Bronfair, Llanfair (NP5/66/202C)**
Cefnogi y cais hwn ond eisiau gwybod a oes estyniad yn cael ei adeiladu hefyd.

**Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt**
Ddim wedi dod i law ers y cyfarfod diwethaf.

**ADRODDIAD Y TRYSORYDD**
Adroddodd y Trysorydd bod £11,876.62 yn y cyfrif rhedegol, a £5,507.07 yn y cyfrif cadw.

**Taliadau ers y cyfarfod diwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Mr. Arwel Thomas | £375.00 | torri gwair y fynwent a spreio eiddew, drain a.y.y.b |
| Mrs Annwen Hughes | £380.00 | cyflog 3 mis |
| Mr. M. J. Kerr | £400.00 | agor bedd y diweddar Mrs Dorothy Marian Jarvis |
| Mr. M. J. Kerr | £400.00 | agor bedd y diweddar Mr. Gareth Mitchelmore |
| BHIB Insiwrans | £351.82 | insiwrans y Cyngor am y flwyddyn |
| Dwr Cymru | £18.11 | tap y fynwent |

**Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

| | | |
|---|---|---|
| Cyngor Gwynedd | £6,500.00 | hanner y precept |
| Mr. M. Downey | £40.00 | rhent cwt yr hers (Mai) |
| Pritchard a Griffiths | £760.00 | claddu y diweddar Mrs Dorothy Marian Jarvis |
| Mr. M. Downey | £40.00 | rhent cwt yr hers (Mehefin) |

**Ceisiadau am gymorth ariannol**
Hamdden Harlech ac Ardudwy - £4,011.95 – hanner y cynnig precept

Adroddodd y Trysorydd ymhellach ei bod wedi ymweld ar Archwiliwr Mewnol ag ei bod wedi cael adroddiad da a bod y llyfrau i gyd mewn trefn ar cyfrifon yn gywir ond bod yr Archwiliwr Mewnol wedi tynnu sylw bod angen mawbysiadu Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol newydd am bod y rhai sydd gan y Cyngor yn hen. Cytunwyd rhoi y materion hyn ar agenda nesa y Cyngor.

**GOHEBIAETH**
**Cyngor Gwynedd – Adran Priffyrdd**
Wedi derbyn llythyr gan yr uchod ynghyd a cytundeb ynglyn ar toiledau cyhoeddus ag yn gofyn i'r Cyngor arwyddo y ddau gopi a dychwelyd un yn nol. Cytunwyd fod y Cadeirydd yn arwyddo y gytundeb hon ar ran y Cyngor.

**Un Llais Cymru**
Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn e-bost gan yr uchod ynghyd a chopi o Model Brotocol Datrysiadau Lleol ar gyfer y Cyngor ag yn gofyn i'r Cyngor fabwysiadau hwn. Adroddodd y Clerc ymhellach ei bod wedi ei anfon ymlaen i bob Aelod yn barod. Agenda mis nesa

**UNRHYW FATER ARALL**
Cafwyd wybod gan y Cyng. Gerallt Jones bod Mr. Hywel Jones wedi gosod yr hysbysfwrdd yn y lloches bws ger groesffordd Caersalem ond ei fod angen gwybod lle i osod y goriad. Cytunwyd ymweld ar safle ar ol cyfarfod y Cyngor. Aeth rhai Aelodau i fyny i'r safle a cytunwyd gosod cadwyn ar ochor yr hysbysfwrdd i ddal y goriad. Hefyd cytunwyd gosod arwydd yn yr hen hysbysfwrdd yn datgan bod un newydd ar gael yn y lloches bws.
Cafwyd wybod bod angen torri gwair y llwybr sydd yn mynd i fyny y grisiau o'r ffordd fawr ag yn dod allan yn ystad Cae Garw.
Eisiau gofyn a fyddai yn bosib cael bin ysbwriel wedi ei gosod ar groesffordd Caersalem oherwydd nid oes bin ysbwriel yn yr ardal o gwbwl.

..........................................Cadeirydd

**MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Adroddodd y Cyng. Annwen Hughes ei bod wedi trefnu cyfarfod a Liz Saville Roberts A.S. a Mr. Richard Poole a Mr. Jon Webb o'r Grwp Gwarchod Twyni Llandanwg dydd Gwener y 31ain o fis diwethaf er mwyn gweld beth oedd y Grwp hwn wedi ei wneud er mwyn gwarchod y twyni ag hefyd i wrando ar eu pryderon. 'Roeddynt wedi cerdded o'r maes draw am adeilad y clwb rhwyfo ag wedyn yn nol ar hyd y traeth ag 'roedd pawb yn teimlo bod y cyfarfod hwn wedi bod yn fuddiol a diolchwyd i'r Grwp am eu gwaith gyda hyn.

**Dyddiad Cyfarfod Nesa**

**Penderfynwyd cynnal cyfarfod nesa y Cyngor ar nos Fercher Gorffennaf 17eg 2019 am 7.30 o'r gloch**

**ARWYDDWYD**........EWH........Cadeirydd

**DYDDIAD**........17/7/19........